

**MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG
(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR A DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN
YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2022**

RHIF Y CWMNI: 2815717

ELUSEN GOFRESTREDIG: RHIF 1021901

LLŶR JAMES

*Cyfrifywyr Ardystiedig Siartredig
Archwilywyr Cofrestredig*

*Chartered Certified Accountants
Registered Auditors*

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

**ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2022**

CYNNWYS

TUDALEN

Rhestr o Wybodaeth	1
Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr	2
Adroddiad Arolygwr Annibynnol	16
Datganiad o Weithgareddau Ariannol	17
Mantolen	18
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	19

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

RHESTR O WYBODAETH

SWYDDFA GOFRESTREDIG

Swyddfa Menter Cwm Gwendraeth Elli
11-15 Heol Coalbrook
Pontyberem
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5HU

BANCWYR

Banc HSBC ccc
4A Stryd Vaughan
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3TY

Banc Lloyds TSB ccc
Stryd Stepney
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3YD

CYFREITHWYR

Darwin Gray
9, Cathedral Rd
Pontcanna
Caerdydd
CF11 9HA

CYFRIFWYR AC AROLYGWR ANNIBYNNOL

Llŷr James Cyf
25 Stryd Y Bont
Caerfyrddin
SA31 3JS

CYFARWYDDWYR Y CWMNI / WASANAETHWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Mr Gwyn Elfyn Jones – (ymddiswyddodd 21.04.21)
Mrs Kathryn Devonald-Davies
Mrs Jeni Olwen Price
Dr Ian Wyn Rees
Ms Anwen Mair Evans – (apwyntiwyd 21.04.21)
Mrs Alana Enoch – (apwyntiwyd 21.04.21)
Catrin Mair Rees – (apwyntiwyd 21.04.21)
Mr Liam Morgan-Bowen
Mr Hugh Richards
Miss Elen Davies
Mrs Medwen Hewitt
Mr Kenneth Denver Rees
Mr Gethin Thomas

Mr Dyfrig Thomas
Mrs Joy Williams
Mrs Linda Williams
Mr John Evan Jones
Miss Marged Lowri Walters Thomas

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni i bwrpas rheolau cyfreithiol cwmnïau) yn cyflwyno'r adroddiad a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022.

ENW SWYDDOGOL

Enw swyddogol yr elusen yw Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig.

CYFANSODDIAD

Mae'r elusen wedi ei sefydlu fel Cwmni Cyfyngedig, rhif 2815717, ac fel elusen gofrestredig, rhif 1021901. Mae cyfansoddiad y cwmni yn unol ag elusennau a chwmnïau cyfyngedig drwy warant heb gyfrannau.

PRIF WEITHGARWCH

Disgrifir prif weithgarwch y cwmni dan restr o amcanion y Fenter.

AMCANION MENTER CWM GWENDRAETH ELLI

1. Cefnogi unrhyw weithgaredd Cymunedol Cymraeg sydd yn bodoli ar hyn o bryd.
2. Hyrwyddo prosiectau er lles adfywio cymunedol, lle mae bylchau'n bodoli.
3. Cydweithio â Mudiadau sydd eisoes yn weithgar yn gymunedol, er mwyn osgoi gwrthdaro, ac er mwyn dyblygu adnoddau.
4. Hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes a masnach drwy: -
 - a) Greu cysylltiadau rhwng cymdeithasau gwirfoddol a'r sector preifat a chyhoeddus er mwyn hybu gweithgareddau Cymraeg cymunedol.
 - b) Hybu'r defnydd o'r iaith yng ngweinyddiaeth a chyhoeddusrwydd y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.
5. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd neu gynadleddau cyhoeddus drwy ddefnyddio offer cyfieithu.
6. Sefydlu prosiectau ymchwil cymunedol fydd yn sbardun i drafodaethau ac yn sail i gynllunio cymunedol.
7. Ystyried anghenion trigolion yr ardal ac adeiladu pontydd er lles adfywio cymunedol.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

8. Sicrhau rhwydwaith o bwyllgorau lleol, a phaneli a gweithgorau fydd yn bwydo syniadau, yn creu bwrlwm ac yn llywio strategaeth.
9. Cyfrannu i'r wasg yn gyson ar bwyntiau yn ymwneud â'r Gymraeg ac adfywio cymunedol, gwaith y Fenter, a natur y cymunedau diwydiannol hyn sydd yn dibynnu ar waith a bywoliaeth er mwyn cadw'r Cymry ifanc yn agos at eu gwreiddiau.
10. Cadw'r weledigaeth yn glir bod rhaid creu delwedd newydd sbon i'r Gymraeg yn gymunedol a fydd yn adlewyrchu natur ein cymdeithas a thueddiadau byd eang yn y byd cyfoes - iaith ffasiynol, fodern a bywiog sy'n berthnasol i'n cyfnod ni heddiw.

FFYNONELLAU A DEFNYDD ARIAN

Mae'r Fenter yn cael ei chyllido yn bennaf, gan gyrff cyhoeddus megis Cyngor Sir Caerfyrddin, Llywodraeth Cymru, Energy Redress, RDP, Bwrdd Iechyd, er mwyn ariannu prosiectau penodol ym maes datblygu cymunedol.

Gweithredwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth a nifer o asiantaethau er mwyn datblygu partneriaethau.

Am y flwyddyn roedd gwarged o £3,129 cyn symudiad yn y gronfa pensiwn.

AROLWG O DDATBLYGIADAU A'R ARGOELION AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r canlyniadau am y cyfnod yn dangos gostyngiad yn y cronfeydd cyn symudiad yn y gronfa pensiwn.

Bu 2021-2022 yn flwyddyn o brosiectau a gweithgarwch di-ri o safbwynt y Gymraeg ar draws ardal Cwm Gwendraeth, Llanelli a'r cyffiniau ac yn flwyddyn o ail sefydlu gweithgareddau a pherthnasau yn dilyn Covid-19.

Mae'r ymddiriedolwyr yn deall pwysigrwydd llif arian i'r Fenter ar adeg pan mae'r disgwyliadau yn uchel ond mae'r adnoddau yn cael eu cwtogi.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried pwysigrwydd cyfraniad y cwmnïau llai i ddyfodol y Fenter ac wedi ystyried sefyllfa ariannol a rhagolygon incwm y cwmnïoedd yma hefyd.

Mae'r pwyllgor wedi asesu ymrwymïadau ariannol y Fenter am y Flwyddyn nesaf ac yn obeithiol o dderbyn arian digonol i'w galluogi i barhau a'r gweithgareddau

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Bu'r flwyddyn 21-22 yn gyfnod heriol, ond bu rhaid mynd i'r afael â'r problemau oedd yn ein hwynebu e.e. staffio, cyllid, effeithiau Covid ayyb.

Gwelwyd colled sawl aelod o staff oherwydd afiechydon, ac yn anffodus bu rhaid i ni fel cwmni wynebu proses diswyddo gwirfoddol. Yn amlwg, bu hwn yn gyfnod diflas i'r Fenter ac i'r Bwrdd Rheoli.

Cafwyd sawl cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Gâr er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa ariannol a diolch am eu cefnogaeth wrth ein harwain i wneud y newidiadau angenrheidiol.

Yn dilyn y cyfnod anodd hwn, roedd yn bosib dechrau proses o ail-strwythuro ac adeiladu am y dyfodol oedd yn rhoi'r fenter ar sylfaen gadarn ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Dwi am wneud yn glir bod y cyfnod wedi bod yn anodd dros ben i aelodau'r Bwrdd Rheoli, i'r swyddogion ac i'r staff ac mae'n hanfodol bod y swyddogion yn gwneud eu gwaith yn drylwyr i graffu ar waith y Fenter ac i herio ble mae angen.

Dr I W Rees

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

NODAU AC AMCANION MENTER CWM GWENDRAETH ELLI YW:

- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg
- Adfer hyder a lles yr unigolyn a chymunedau Cwm Gwendraeth Elli ac ardaloedd eraill yng Nghymru er mwyn i drigolion gyrraedd eu potensial llawn.
- Normaleiddio'r defnydd o'r iaith Gymraeg a hyrwyddo'n treftadaeth ddiwylliannol ymhlith trigolion Cwm Gwendraeth Elli ac ardaloedd eraill yng Nghymru er mwyn i drigolion gyrraedd eu potensial llawn.

CYFLWYNIAD Y PRIF SWYDDOG DROS DRO

Dyma gyfle i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Menter Cwm Gwendraeth Elli ar gyfer 2021-22. Bu'n flwyddyn llawn gweithgareddau ar draws ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli yn cynnig ystod eang o weithgareddau addas at bob oed ac at bobl gyda gwahanol ddiddordebau. Bu eleni yn wahanol i'r arfer gan fod Covid-19 wedi gorfodi i ni newid agweddau o'n gwaith a hefyd wedi newid gofynion sefydliadau a chymunedau. Bu eleni yn flwyddyn o fentro a treialu, er mwyn sefydlogi gweithgareddu a chymunedau yn dilyn y cyfnodau clo. Hefyd, bu'n flwyddyn o ail-gydio mewn gweithgareddau wyneb yn wyneb ar ôl addasu ein ffordd o weithredu oherwydd y pandemig.

Mae'r Fenter yn ffodus o gael cyfeillion a ffrindiau da ynghyd â chriw o wirfoddolwyr a phartneriaid gweithredol. Diolch i Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gar a Mentrau Iaith Cymru ac i'n amrywiol bartneriaid ar draws y Sir am bob cefnogaeth.

Rhaid diolch i'r Bwrdd Rheoli o dan arweiniad y swyddogion am bob cefnogaeth. Mae fy niolch yn mynd i'r tîm o staff brwdfrydig sydd yn gweithio'n ddiwyd bob amser er llwyddiant y Fenter. Mae cyfraniad bob un ohonynt yn werthfawr ac yn gyfraniad sylweddol at weld datblygu'r Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth a Llanelli.

Gobeithio bod yr Adroddiad yn rhoi blas i chi ar waith y Fenter, yr heriau a'r llwyddiannau sy'n ein hwynebu o ddydd i ddydd.

Alaw Davies

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

EIN CENHADAETH NI YW:

‘Bod yn Gwmni creadigol, blaengar ac ymatebol, sy’n benderfynol o ddarparu’r gwasanaeth gorau er mwyn mynd i’r afael ag anghenion ac yn gwella potensial yr unigolyn a’r gymuned gan wneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael’

Menter Cwm Gwendraeth Elli, 11-17 Heol Coalbrook, Pontyberem, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5HU.

Rhif ffôn 01269 871600

Ffacs 01269 870599

E-bost: alaw@mcge.co.uk

Gwefan: www.mcge.co.uk

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant Cofrestredig yng Nghymru: 2815717 Elusen Gofrestredig: 1021901

STAFF CRAIDD YN YSTOD Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2022

Nerys Burton

Huw Evans

Alan Lewis

Julie Nicholas

Ann Rees

Paul Thomas

Alaw Davies

Aled Evans

Elen Davies

Prif Weithredwr

Rheolwr Iaith a Chymuned

Swyddog Datblygu Cymunedol

Swyddog Cyllid

Gweinyddydd

Swyddog Ynni

Is-reolwr / Prif Swyddog Dros Dro

Swyddog Plant a Ieuenctid

Swyddog Datblygu

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

LLYWYDD

Nigel Owens MBE

IS -LLYWYDD

Deris Williams MBE

PWYLLGOR RHEOLI

Mr Gwyn Elfyn Jones – (ymddiswyddodd 21.04.21)

Mrs Kathryn Devonald-Davies

Mrs Jeni Olwen Price

Dr Ian Wyn Rees

Ms Anwen Mair Evans – (apwyntiwyd 21.04.21)

Mrs Alana Enoch – (apwyntiwyd 21.04.21)

Catrin Mair Rees – (apwyntiwyd 21.04.21)

Mr Liam Morgan-Bowen

Mr Hugh Richards

Miss Elen Davies

Mrs Medwen Hewitt

Mr Kenneth Denver Rees

Mr Gethin Thomas

Mr Dyfrig Thomas

Mrs Joy Williams

Mrs Linda Williams

Mr John Evan Jones

Miss Marged Lowri Walters Thomas

Y CWTSH

Elin Davies

Rhian Hudson

Louise Hardy

Anne Hinkin

Gemma Walters

Wendy Snook

Stephanie Johns

Louise John

Llinos Daniels

Clybiau ar ôl ysgol – 45 o staff

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

PLANT A PHOBL IFANC

Llesol

Yn wreiddiol, lluniwyd rhaglen Sgiliau Byw fel rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Sir Gar. Mae'r prosiect wedi ei addasu a'i ddiweddarau yn ystod y flwyddyn ac enwyd y prosiect yn Llesol. Mae'r cynllun yn cynnig cefnogaeth i rieni a gwarchodwyr babanod a phlant gan ganolbwyntio ar gyfathrebu, iaith, llythrennedd a chwarae trwy fwyta'n iach a chadw'n heini. Mae'r prosiect yn ddilysniant naturiol i iaith a Chwarae a Rhifedd a Chwarae gan ganolbwyntio ar y nodweddion craidd canlynol; -

- Bwyta'n iach a chadw'n heini
- Y Plât bwyd - 5 y dydd
- Coginio lachus yn y cartref a thu allan i'r cartref
- Dyddiadur Bwyd a Labeli Bwyd
- Prydau Bwyd, Byrbrydau a Blasu Bwyd
- Gofalu am ein corff

Nod y rhaglen: -

- Gwella datblygiad iaith 0-3 oed
- Annog rhyngweithiad rhwng rhieni a phlant ifanc
- Annog rhieni i rannu llyfrau a storiâu gyda babanod a phlant ifanc
- Datblygu dealltwriaeth a hyder rheini
- Gosod sylfaen ar gyfer dysgu gydol oes

Clybiau Gofal

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydlynu a rheoli Clybiau Gofal cofrestredig sy'n cwrdd o 3:00 hyd 6:00 o'r gloch yr hwyr ar draws ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae'r clybiau yn cael eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac wedi derbyn adroddiadau anrhydeddus iawn.

Clybiau Joio a Hwyl

Mae cyfres o 10 o Glybiau Joio a Hwyl yn y Gymraeg yn cael eu darparu ar ôl ysgol ar draws ardaloedd Cwm Gwendraeth a Chylch Llanelli. Mae'r Clybiau hyn yn cynnig awr a hanner o weithgareddau penodol ar ôl ysgol gan ehangu'r cyfloed i blant 4 - 11 oed gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl ysgol.

Theatr Iau ac Ieuenctid

Mae'r theatr yn cynnig gwasanaeth i blant 4 - 11 oed a 11 - 18 oed, gan gwrdd yn wythnosol yn ystod y tymor ysgol. Mae'r tîm o gyfarwyddwyr profiadol yn cynnig profiadau niferus ym maes theatr a pherfformio. Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i gyflwyno ffrwyth llafur y gweithdai wythnosol mewn perfformiadau theatrig. Cafwyd perfformiadau hwyliog iawn a bu hyn yn gyfle pellach i godi proffil gwaith y cwmni a thalent y bobl ifanc.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Ymwybyddiaeth Iaith

Gan fod natur ein gwaith wedi gorfod newid dros y flwyddyn hon, mae sesiynau ymwybyddiaeth iaith rhithiol yn cael eu cynnig i holl ysgolion cynradd ac uwchradd Cwm Gwendraeth a Llanelli, a hefyd i Gampws Y Graig Coleg Sir Gâr. Nod y sesiynau hyn yw i godi ymwybyddiaeth am hanes yr iaith, digwyddiadau pwysig sydd wedi effeithio ar y Gymraeg a sut mae'r iaith wedi ysbrydoli unigolion yn eu gyrfa e.e., Nigel Owens ac Alex Jones. Y neges holl bwysig yw bod angen i bobl ddefnyddio'r iaith, pa bynnag fath o Gymraeg maent yn ei siarad.

Capsiwl Cofid

Mae'r Capsiwl Covid wedi bod yn un o uchafbwyntiau MCGE yn ystod y cyfnod. Crëwyd Capsiwl Covid i blant oed cynradd yn gyntaf, gyda'r teledu ar radio yn dangos diddordeb yn y pecyn. Cyrhaeddodd y pecyn dros 40,000 o bobl ar gyfryngau cymdeithasol y Fenter. Roedd y pecyn yn benodol i rhoi cyfle i unigolion edrych yn ôl ar y cyfnod rhyfedd hwn. Yn dilyn llwyddiant y capsawl, crëwyd un addas ar gyfer plant oed cyn-ysgol a'i rhieni ac i bobl ifanc / oedolion.

Digidol

Gan bod pawb wedi gorfod addasu ffordd o weithio oherwydd y sefyllfa bresennol, mae amserlen wythnosol yn cael ei chreu yn targedu pobl o bob oedran a phob gallu ieithyddol, plant a phobl ifanc, dysgwyr, mam a babi, ysgolion, dim ond i rhestr rhai. Rydym wedi achub mantais ar y cyfle i ddatblygu gwefan ar gyfer y Cwtsh gan ein bod wedi gorfod cau am gyfnod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r wefan yn parhau i ddatblygu. Mae Plant y Cwm hefyd wedi datblygu system bwcio ar-lein ar gyfer clybiau ar ôl ysgol y Fenter. Mae'n system ddiogel, sy'n caniatáu ni i fonitro ffigyrau yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn.

Clwb Darllen

Crëwyd Clwb Darllen Covid i oedolion dros cyfnod clo, ac mae wedi bod yn brosiect llwyddiannus. Mae 10 unigolyn yn rhan o'r grŵp ac yn cael trafodaethau diddorol am lyfrau cyfredol. Mae'r unigolion yn cwrdd yn wythnosol yn darllen nofelau, straeon byrion, hunangofiant ac yn cael trafodaethau yn sgil y themâu sy'n codi. Mae hyn yn ffordd wych o gymdeithasu a chael tipyn o hwyl. Nod y grŵp yw cwrdd wyneb yn wyneb yn rheolaidd pan fydd canllawiau yn caniatáu.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Ownzone

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn rheoli cynllun Ownzone yn Ysgol Dyffryn Aman. Nod Ownzone yw cynnig cyfle i ddisgyblion dreulio amser tu allan i'r ysgol mewn man diogel, lle mae modd iddyn nhw gael cefnogaeth bersonol a nifer o weithgareddau cyffrous. Un o brif amcanion y prosiect yw codi hunan hyder y disgyblion a chynyddu eu cyfranogiad. Rôl bwysig sydd gan Ownzone yw creu partneriaethau effeithiol sydd yn medru helpu plant a phobl ifanc rhwng deg a phedair ar ddeg mlwydd oed. Ynghyd â chydweithio'n agos iawn gyda'r Ysgol, rydym wedi bod yn creu partneriaethau allanol i'r prosiect.

Mae Ownzone yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gyfrannu at gynllunio gweithgareddau, a'u trefnu, a chael perchnogaeth dros yr hyn sy'n digwydd. Bydd y bobl ifanc yn cael y canlynol:

- Man diogel i fynd iddo ar ôl ysgol, lle gallant gael hwyl
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd a datblygu sgiliau newydd
- Ymfalchïo mewn amrywiaeth newydd o gyraeddiadau personol
- Cyfle i ddatblygu sgiliau allweddol a sgiliau meddwl trwy gael dweud eu dweud ar yr hyn sy'n digwydd
- Datblygu eu hunanhyder a'u hunan-barch
- Teimlo'n gadarnhaol am yr ysgol, a chael eu symbylu i ddysgu
- Ehangu gorwelion

YR AMGYLCHEDD

Adfer Energy Redress

Mae Adfer Energy Redress yn cynnig cymorth i bobl Sir Gaerfyrddin i leihau costau gwresogi eu cartrefi a lleihau Tlodi Tanwydd. Mae Tlodi Tanwydd yn effeithio ar filoedd o aelwydydd ar draws Cymru ac yn cael effaith negyddol ar iechyd, gan gyfrannu ar afiechyd a marwolaethau dros y Gaeaf. Bydd Adfer Energy Redress yn helpu pobl sydd yn agored i niwed. Bydd hefyd yn grymuso pobl i gymryd camau cadarnhaol yn cymunedau eu hunain, mewn ymateb i'r cynnydd yn y gost o wresogi cartrefi- tuedd sy'n peri cryn bryder i lawer gyda'r cynnydd mewn cost ynni presennol. Mae'r swyddog Adfer Energy Redress yn gweithio'n rhad ac am ddim gyda unigolion er mwyn arbed costau ynni yn y cartref a lleihau dyledion ynni. Bydd y swyddog yn ymgyrchu ar draws Sir Gar gyda sioeau penffordd a chymorthfeydd ynni un i un â ffocws penodol. Mae tlodi tanwydd ar ei uchaf mewn ardaloedd gwledig sydd heb fynediad i'r grid Nwy. Mae Adfer Energy Redress yn croesawu cyfle i gydweithio gyda sefydliadau tai a grwpiau cymorth leol, a hynny yn rhad ac am ddim.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

ADDYSG GYDOL OES

Dysgwyr. Dysgu'r Gymraeg yn y Gymuned

Dros y blynyddoedd mae nifer fawr o bobl wedi mentro i ddosbarthiadau Addysg Gymraeg i Oedolion ar hyd a lled Llanelli a Chwm Gwendraeth ac mae'r gymuned Gymraeg yn ddiolchgar iawn iddynt am eu hymrwymiad a'u dyfalbarhad.

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru "Miliwn o Siaradwyr" yn ddibynnol ar greu siaradwyr newydd a'u hannog i ddefnyddio'r iaith ar lawr gwlad er lles pawb. Mae gweithio gyda dysgwyr yn allweddol ar gyfer parhad yr iaith ac fel Menter Iaith, rydym wedi blaenoriaethu ymdrechion i helpu y dysgwyr hyn i 'bontio', hynny yw i fynd o fod yn ddysgwyr pur i fod yn siaradwyr naturiol. I wneud hyn, rydym wedi sefydlu sesiynau amrywiol i gynorthwyo dysgwyr i ddeall ac i ddod i siarad Cymraeg sy'n debyg iawn i'r iaith a ddefnyddir gan bobl leol.

Rhedir sesiynau Clwb Croeso ar gyfer pobl sydd yn newydd i'r ardal ac i'r Gymraeg, ac sydd eisiau dysgu siarad rhywfaint o'r Gymraeg er mwyn deall fwy o'r hyn sydd yn mynd ymlaen o'u cwmpas. Darperir y Clybiau Croeso yn Llandyfaelog, Cross Hands, Llanelli, Pontyberem, Pum Heol, Ffwrnes a Thrimsaran. Hefyd rydym yn darparu sesiynau ar gyfer dysgwyr, neu bobl leol sydd â rhywfaint o afael ar y Gymraeg ond yn ofnus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd y tu allan i'r dosbarth.

Mae'r Clybiau Clonc hyn yn rhoi'r pwyslais ar fwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfle i gymdeithasu gan ddefnyddio'r Gymraeg a ddefnyddir yn lleol. O ganlyniad i'r sesiynau hyn, mae dysgwyr yn mynd ymlaen i fynychu nifer fawr o ddigwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol a rhedir gan y Fenter, ond hefyd gan grwpiau cymunedol eraill.

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydweithio'n agos gyda dysgwyr ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae hyn yn cynnwys cynnal sesiynau trafod a chydweithio gyda'r dysgwyr.

Cwis Dim Clem

Mae Cwis Dim Clem yn brosiect i blant blwyddyn 6 ysgolion cynradd Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae'r cwis yn cynnwys sawl gwahanol rownd sy'n codi ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg. Mae sawl rownd gwahanol sy'n arwain at rownd derfynol. Yn dilyn llwyddiant y Cwis, mae bellach yn brosiect rhanbarthol ac yna wedi tyfu i fod yn genedlaethol.

Pryd ar Glud

Mae gwasanaeth Pryd ar Glud yn cael ei gynnig i drigolion Cwm Gwendraeth ddwy waith yr wythnos. Mae'r trigolion hyn yn cael pryd twym, dau gwrw wedi ei ddarparu yn y cartref. Mae'r gwasanaeth hwn yn holl bwysig i'r bobl sydd yn gaeth i'w cartrefi. Diolch i'r gwirfoddolwyr am eu cefnogaeth i ddosbarthu'r pecynnau bwyd. Hefyd, mae'r unigolion hyn yn gwerthfawrogi gweld gwyneb adnabyddus yn wythnosol.

Prosiect Cristnogol

Sefydlwyd prosiect Cristnogol yng Nghwm Gwendraeth er mwyn hyrwyddo mynediad a dealltwriaeth pobl ifanc i agweddau Cristnogol. Ein bwriad yw creu rhwydwaith o weithgareddau mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid gan greu awyrgylch Gristnogol.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

MENTRAU CYMDEITHASOL

Plant y Cwm-Yn gwella bywyd plant Cymru

Mae Plant y Cwm yn cael ei gydnabod yn genedlaethol fel cwmni ymroddedig, sy'n hyrwyddo a chefnogi gofal a chymorth i deuluoedd, plant ac oedolion ifanc ar draws Sir Gaerfyrddin. Genir dyfeisgarwch mewn chwarae creadigol. Mae gan blant ffordd arbennig o ddod a llawenydd i bob dydd. Wrth edrych i mewn i'w llygaid gwelwn y gallant wneud beth bynnag mae nhw'n ei ddychmygu. Gallwn ninnau ond eu helpu i ddychmygu au hysbrydoli i wireddu.

Pwy ydym ni?

Rydym yn gwmni preifat sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol ac yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwasanaethau i blant ac oedolion ifanc yng nghymunedau Cwm Gwendraeth, ardal Llanelli a thu hwnt.

Beth i ni'n gwneud?

Mae Plant y Cwm yn ddarparwr blaengar a dibynadwy sy'n cyflawni gofal a chefnogaeth i fywydau plant ac oedolion ifanc.

Dysgu'n ddi-dor

Mae plant yn dysgu mewn nifer fawr a ffyrdd boed ai'n ffurfiol neu beidio. Mae'r clybiau yn cynnig cyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau newydd mewn amgylchedd creadigol a diogel sy'n ychwanegu at ei haddysg trwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau.

Canolfan Cymunedol Y Cwtsh

Canolfan Adnoddau yw'r Cwtsh ar gyfer Cwm Gwendraeth ac mae'n cyfuno siop lyfrau a chaffi. Yn ogystal, mae'r Cwtsh yn ofod cymunedol gwerthfawr, sy'n cael ei ddefnyddio gan bob rhan o'r gymuned, yn enwedig trigolion lleol sy'n defnyddio'r cyfleuster fel lle diogel a chroesawgar i gwrdd â ffrindiau a hefyd i wneud ffrindiau newydd. Mae'r Cwtsh yn darparu prydau poeth, ac mae brecwast wedi eu coginio bob dydd ac yn awr mae ar agor chwe diwrnod yr wythnos.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

DATBLYGU CYMUNEDOL

Bywyd Cyflawn, Bywyd Hapus

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydnabod bod y perygl o unigedd ac ynysu cymdeithasol yn fwy o ofid nawr nag erioed. Mae pobl yn fwy symudol nawr nag erioed gyda nifer fawr o'n cymunedau wedi gweld dirywiad mewn cyfranogaeth ar lawr gwlad ac mae'r cyfleusterau, sydd ar gynnig yn lleihau diolch i doriadau ariannol a newidiadau mewn patrymau bywyd. Felly, mae'r Fenter yn trefnu calendr o weithgareddau rheolaidd a digwyddiadau achlysurol gyda'r nod o ddod â phobl at ei gilydd, i wneud cysylltiadau, i ddysgu rhywbeth newydd ac i fwynhau. A hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys sesiynau gemau traddodiadol, gweithdai coginio, cwisus a ciniawau, grŵp drama, ioga, a theithiau i weld rhai o'r mannau diddorol a braf sydd ar drothwy ein drysau.

Cryfhau Cymunedau

Ers cenhedlaeth bellach, bu Menter Cwm Gwendraeth Elli yn gweithredu gydag unigolion a grwpiau cymunedol o bob math er mwyn deall sut y mae ein cymunedau yn esblygu, ac anghenion eu trigolion yn newid.

Nid yw pwyllgora at ddant pawb, ond yn sicr, mae yna nifer fawr o ffyrdd y gall pobl leol roi o'u hamser er mwyn gwneud gwahaniaeth go-iawn i fywydau pobl Cwm Gwendraeth a Llanelli a'r cylch. Yn ystod y flwyddyn, bum yn cynnal gweithgarwch ar lein yn unol â chanllawiau cofid. Bum yn cydlynu gweithgarwch yn nhafarn rhithiol, tafarn y clo ar facebook. Cynhaliwyd gig gomedi gan Noel James, Theatr Cymru i blant oed Cynradd, clybiau darllen, sesiynau iechyd a lles, creu cerddi dan arweiniad yr Egin a groto Siôn Corn, i gyd ar blatfformau digidol.

Papur y Cwm

Mae canolfan Menter Cwm Gwendraeth Elli ym Mhontyberem yn gartref i Papur y Cwm gyda thîm o wirfoddolwyr yn cwrdd yn fisol i olygu'r newyddion sydd wedi dod i law. Mae Menter Cwm Gwendraeth yn gosod y papur cyn ei drosglwyddo i Wasg Dinefwr i'w argraffu.

Partneriaethau

Mae gan y Fenter gysylltiadau agos gydag ystod eang o bartneriaethau ac mae'n cydweithio gyda nifer o grwpiau, mudiadau a sefydliadau gan gynnwys:

Cyngor Sir Gaerfyrddin
Mudiad Meithrin
Urdd
Papurau Bro
Ysgolion Cynradd
Prifysgol Abertawe
Clybiau Ffermwyr Ifanc
Cyngorau Tref a Chymuned
Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Age Concern Cymru
CAVS
CgGC
Cymraeg i Blant

Llywodraeth Cymru
Mentrau Iaith Cymru
Busnesau Lleol
Ysgolion Uwchradd
Merched y Wawr
Prifysgol y Drindod Dewi Sant
Clybiau Gwawr
Canolfan Cymraeg i Oedolion
Mentrau Iaith
Cyfoeth Naturiol Cymru
Redress
Adfywio Cymru
Y Loteri Genedlaethol

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion Deddf Cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig.

Yn ôl cyfraith cwmnïau mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol bob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr yr elusen a gwarged neu ddiffyg yr elusen yn ystod y flwyddyn honno. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol: -

- 1) Dewis polisïau cyfrif addas a'u gweithredu'n gyson;
- 2) Dilyn dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arfer Cymeradwy: Cyfrifo a Chofnodi gan Elusennau;
- 3) Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifol a darbodus;
- 4) Datgan a ydy'r safonau cyfrifyddu perthnasol a'r datganiadau o arferion cymeradwy wedi cael eu dilyn heblaw am unrhyw eithriadau sydd wedi eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol;
- 5) Paratoi datganiadau ariannol ar sail y dybiaeth bod yr elusen yn hyfyw oni fernir mai priodol fyddai credu bod yr elusen ar fin dod i ben.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion priodol o'r cyfrifon sy'n datgelu'n rhesymol o gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac am sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio a Deddf Gwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedion yr elusen ac am gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

ASESIAD RISG

Yn dilyn cyfarwyddyd gan y Comisiynwyr Elusennau y dylai pob elusen baratoi asesiad risg fel mater o arfer da, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried ac adolygu'r peryglon y gallai'r cwmni eu hwynebu. Roedd yr adolygiad nid yn unig yn cynnwys risgiau sydd yn gysylltiedig â hwyluso prosiectau neu faterion iechyd a diogelwch ond hefyd risgiau ariannol mewn perthynas â dirwyn y cwmni i ben, diswyddiadau, salwch hirdymor neu geisiadau am iawndal gan staff.

Cytunwyd i neilltuo arian o gyllideb gyfredol y cwmni er mwyn ymateb i achosion risg. Yn sgil hynny, mae cyfanswm o £33,177 wedi ei drosglwyddo i gronfeydd penodol.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Wrth baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr, manteisiwyd ar yr eithriadau arbennig yn unol â rhan 15 o Ddeddf Gwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bychan.

TRWY ORCHYMYN Y BWRDD

11-15 Heol Coalbrook
Pontyberem
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5HU

DocuSigned by:


435AD8A5C7BE424...

Dr Ian Wyn Rees

YMDDIRIEDOLWR

23-12-2022

DYDDIAD

LLŶR JAMES

Cyfrifyr Ardystiedig Siartredig *Chartered Certified Accountants*
Archwilyr Cofrestredig *Registered Auditors*

25 Stryd Y Bont
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3JS

ffôn/tel
ffacs/fax
ebost/email
gwefan/website
trydar/twitter

25 Bridge Street
Carmarthen
Carmarthenshire
SA31 3JS

01267 237754
01267 238418
post@llyrjames.co.uk
www.llyrjames.co.uk
@LlyrJamesCyf

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)

ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR AROLYGWR ANNIBYNNOL I'R YMDDIRIEDOLWYR

Dyma adroddiad yr arolygwr annibynnol i'r aelodau ar gyfrifon anarchwiliedig Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf.

Adroddaf i ymddiriedolwyr yr elusen ar fy arolwg annibynnol o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2022.

Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith yn ymwneud a chwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ("Deddf 2006").

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archwiliad ariannol o gyfrifon y Cwmni ar gyfer y flwyddyn hon a dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael arolwg annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harolwg annibynnol o gyfrifon eich elusen fel y'i cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ("Deddf 2011"). Wrth ymgymryd â'm harolwg annibynnol, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Roedd incwm gros y cwmni yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr arolwg annibynnol trwy fod yn aelod cymwysedig o Gymdeithas y Cyfrifyr Ardystiedig Siartredig.

Rwyf wedi cwblhau fy arolwg annibynnol. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i mi gredu:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddol eu cadw yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifo perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o arolwg annibynnol; neu
- nad yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r arolwg annibynnol y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

DocuSigned by:

Bethan Vaughan

8A7F03B26B1E49F.....

BETHAN VAUGHAN

CYFRIFYDD ARDYSTIEDIG SIARTREDIG

29-12-2022

DYDDIEDIG.....

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG****DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022**

	Cronfeydd heb gyfyngiadau £	Cronfeydd Penodol £	Cronfeydd a chyfyngiadau £	Cyfanswm 2022 £	Cyfanswm 2021 £
INCWM A GWARIANT					
ADNODDAU I MEWN					
Rheoli Prosiectau	22,000	-	137,598	159,598	209,119
Cymhorthdal - Eraill	140,338	-	-	140,338	134,219
Gweithgareddau	13,355	-	-	13,355	16,618
Grantiau Covid	49,190	-	-	49,190	225,956
Adnoddau i mewn - cyfanswm	224,883	-	137,598	362,481	585,912
ADNODDAU A DDEFNYDDIWD					
Dibrisiant	2,115	-	-	2,115	2,179
	2,115	-	-	2,115	2,179
Costau Eraill					
Costau Proffesiynol	12,339	-		12,339	15,358
Costau Gweithgareddau (4a)	11,297	-	-	11,297	10,641
Costau Cynnal (4b)	175,647	-	157,954	333,601	390,740
	199,283	-	157,954	357,237	416,739
Adnoddau a ddefnyddiwyd – cyfanswm	201,398	-	157,954	359,352	418,918
Adnoddau net a ddefnyddiwyd	23,485	-	(20,356)	3,129	166,994
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	-	-	-	-	-
Elw/(Colled) gwirioneddol ar y cynllun buddiannau pendant	142,000	-	-	142,000	(131,000)
Symudiad net mewn cronfeydd	165,485	-	(20,356)	145,129	35,994
CRONFEYDD - DYGWYD YMLAEN	(1,475,729)	33,177	63,008	(1,379,544)	(1,415,538)
CRONFEYDD - CARIWYD YMLAEN	(1,310,244)	33,177	42,652	(1,234,415)	(1,379,544)

Dangosir y symudiadau ar yr arian wrth gefn yn nodiadau 9, 10 ac 11 i'r datganiadau ariannol.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG (RHIF Y CWMNI: 2815717)
(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG


MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2022

	NODYN	£	2022	£	2021	£
ASEDION SEFYDLOG						
Asedion Sylweddol	2 a 5		54,838		58,090	
ASEDION CYFREDOL						
Dyledwyr	6	57,039		43,259		
Arian yn y banc ac mewn llaw		122,041		153,982		
		179,080		197,241		
CREDYDWYR: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	7	23,858		47,263		
ASEDION CYFREDOL NET			155,222		149,978	
CYFANSWM ASESION LLAI						
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			210,060		208,068	
Darpariaeth am ymrwymadau	8		(4,475)		(5,612)	
Cynllun Pensiwn			(1,440,000)		(1,582,000)	
ASESION NET			£(1,234,415)		£(1,379,544)	
CYFALAF AC ARIAN WRTH GEFN						
Cronfeydd – heb gyfyngiadau	9		(1,310,244)		(1,475,729)	
Cronfeydd – penodol	10		33,177		33,177	
Cronfeydd – a chyfyngiadau	11		42,652		63,008	
CYFANSWM CRONFEYDD			£(1,234,415)		£(1,379,544)	

Ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw roedd gan y cwmni'r hawl i gael ei eithrio o dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud a chwmnïau bach. Nid yw unrhyw aelodau wedi mynnu i'r cwmni gael archwiliad ariannol o'i gyfrifon am y flwyddyn dan sylw yn unol ag Adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb am gydymffurfio a gofynion y Ddeddf mewn perthynas â chofnodion cyfrifeg ac am baratoi cyfrifon.

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r drefn cwmnïau bychain.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 16 i 30 gan fwrdd yr ymddiriedolwyr ac fe'u harwyddwyd ar ei ran gan:

DocuSigned by:

 E987E675182549A...

YMDDIRIEDOLWR

Fns Kathryn Devonald-Davies

DYDDIAD

29-12-2022

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig yn elusen gofrestredig ac yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Unedig. Mae'r swyddfa gofrestredig yn 11-15 Coalbrook Road, Pontyberem, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5HU.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn punnoedd sterling (£).

2. POLISIÂU CYFRIFO

Sail y Cyfrif

Mae'r cwmni'n paratoi ei ddatganiadau ariannol ar sail cyfrifo cost hanesyddol.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â'r darpariaethau o Adran 1A "Cwmnïau Bychain" o Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" a Deddf Cwmnïau 2006.

Paratoi cyfrifon ar sail hyfywedd

Ar y fantolen, mae gan Menter Cwm Gwendraeth Elli ddiffyg ariannol o £1,234,415 (2021: £1,379,544). Mae hyn o ganlyniad i gyflwyno, ar 1 Ebrill 2015, y rhwymedigaeth a gysylltir â'r Cynllun Pensiwn â Buddion Wedi'u Diffinio. Mae'r Diffyg Pensiwn yn rhwymedigaeth tymor-hir, ac mae'r elusen mewn sefyllfa i gwrdd â'i holl rhwymedigaethau cyfredol. Caiff rhwymedigaeth tymor-byr y diffyg pensiwn ei gydnabod gan yr Ymddiriedolwyr, ac maent mewn sefyllfa i gwrdd â'r holl oblygiadau hyn. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn fod yr elusen, ar sail yma, yn fusnes gweithredol a hyfyw.

Costau Pensiwn

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn gweithredu pensiwn â buddion wedi'u diffinio o fewn Cronfa Bensiwn Dyfed. Ar ôl mabwysiadu FRS 102 ym mis Ebrill 2015, dangosir y diffyg hwn yn llawn ar y Fantolen.

Trosiant

Mae'r trosiant yn cynrychioli gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.

Asedion Sefydlog A Dibrisiant

Nodir gwerth asedion sefydlog ar y fantolen yn ôl eu cost llai dibrisiant. Diddymir cost asedion sefydlog fesul rhandaliad blyneddol cyfartal dros eu hoes defnyddiol tybiedig fel a ganlyn:-

Celfi ac Offer - 15% Moduron - 25%

Ystyrir asedion a brynir trwy gytundeb les fel asedion cyfalaf ac fe'u dibrisir yn ôl y cyfraddau uchod.

Grantiau

Mae grantiau yn cael eu credydu i incwm yn unol â'r cyfnodau y maent yn perthyn iddynt.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG****NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022*****Asesiad Risg***

Mae'r cwmni wedi ystyried ac adolygu pob risg a allai effeithio ar yr elusen. Roedd y broses hon yn cwmparu nid yn unig y sefyllfa ariannol ond hefyd ystyriaethau strategol ac amgylchiadol. Mae'r cwmni elusennol yn cadarnhau bod systemau wedi'u sefydlu i wrthsefyll pob risg o'r math y tynnwyd sylw atynt fel rhan o'r broses hon.

Offerynnau Ariannol

Mae'r offerynnau ariannol nad ydynt ynghlwm wrth symudiadau'r farchnad yn cynnwys dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill, arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian, credydwyr masnachol a chredydwyr eraill.

Ac eithrio lle dywedir fel arall, mae gwerthoedd asedion ac ymrwymadau ariannol y cwmni yn amcangyfrifon teg.

Defnyddio Elw

Defnyddir elw'r cwmni i greu cronfa gyffredinol wrth gefn er sicrhau parhad a datblygiad y cwmni ar sail y cyfrannau ac yn ôl y dulliau a argymhellir gan y Pwyllgor Rheoli a'u cymeradwyo gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

Gwarant

Mae atebolrwydd pob aelod yn gyfyngedig i uchafswm o £1. Diddymir yr atebolrwydd hwn flwyddyn ar ôl i'r aelodaeth ddarod.

Polisi Arian Wrth Gefn

Lluniwyd y polisi arian wrth gefn i sicrhau bod gan y cwmni elusennol gyllid digonol i ddelio a'r elfen o risg sydd ynghlwm a rhedeg cwmni sydd yn ddibynnol ar dderbyn arian o'r pwrs cyhoeddus. (Gweler nodyn 11)

3. CYFARWYDDWYR A STAFF

Ar gyfartaledd rhif y staff yn fisol yn ystod y flwyddyn oedd: 25 (2021 – 25).

Roedd costau cronus cyflogau'r personau hyn fel a ganlyn:-

	2022	2021
	£	£
Cyflogau a chostau teithio	200,223	169,797
Costau Nawdd Cymdeithasol a Phensiynau	62,581	31,085
	<hr/>	<hr/>
	262,804	200,882
	<hr/>	<hr/>

Ni dalwyd cyflog i unrhyw un o'r ymddiriedolwyr.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG
(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

4. DADANSODDIAD O GOSTAU	Cronfeydd heb gyfyngiadau	Cronfeydd penodol	Cronfeydd a chyfyngiadau	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
	£	£	£	£	£
4a COSTAU GWEITHGAREDDAU					
(i) Eraill	11,297	-	-	11,297	10,641
	-----	-----	-----	-----	-----
	11,297	-	-	11,297	10,641
	=====	=====	=====	=====	=====
4b COSTAU CYNNAL					
(ii) Costau Swyddfa	16,702	-	-	16,702	14,789
(iii) Costau Cyflogau a chostau teithio	125,206	-	137,598	262,804	200,882
(iv) Prosiectau	33,739	-	20,356	54,095	92,213
(v) Hyfforddiant	-	-	-	-	82,856
	-----	-----	-----	-----	-----
	175,647	-	157,954	333,601	390,740
	=====	=====	=====	=====	=====

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG****NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022****5. ASEDION SEFYDLOG SYLWEDDOL**

	Adeilad	Adeilad ar Les £	Celfi ac Offer £	Cyfanswm £
COST				
Ar 1.4.21	46,815	17,000	176,483	240,298
Ychwanegiadau	-	-	-	-
	-----	-----	-----	-----
Ar 31.3.22	46,815	17,000	176,483	240,298
	-----	-----	-----	-----
DIBRISANT				
Ar 1.4.21	16,011	-	166,197	182,208
Tal am y cyfnod	-	-	3,252	3,252
	-----	-----	-----	-----
Ar 31.3.22	16,011	-	169,449	185,460
	-----	-----	-----	-----
GWERTH LLYFR NET				
Ar 31.3.22	£30,804	£17,000	£ 7,034	£54,838
	=====	=====	=====	=====
Ar 31.3.21	£30,804	£17,000	£ 10,286	£58,090
	=====	=====	=====	=====

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG****NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022****6. DYLEDWYR**

	2022	2021
	£	£
Dyledwyr Masnachol	41,230	34,029
Menter Min Nos Cyf (6i)	219	219
Menter Plant Y Cwm Cyf (6i)	12,397	5,818
Blaendaliadau	924	924
Dyledwyr eraill	2,269	2,269
	<u>£57,039</u>	<u>£43,259</u>

Nodyn (i)

Ar 31 Mawrth 2022 roedd asedion y cwmnïoedd fel a ganlyn:-

	2022
	£
Cwtsh Glöyn Cyf	£ 16,998
Menter Plant y Cwm Cyf	£ 28,805
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf	£ 10,822
Menter Min Nos Cyf	£ 331
Caffi Cynnes Cyf	£ 11,157

Er nad yw'r rhain yn is-gwmnïau, fe'u sefydlwyd gan Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf er mwyn iddynt weinyddu gweithgareddau penodol. Maent i gyd yn gweithredu o dan oruchwyliaeth Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf sydd hefyd yn gwarantu eu holl ymrwymïadau ariannol.

7. CREDYDWYR

	2022	2021
	£	£
Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn: -		
Credydwy'r Masnachol	2,309	1,363
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf (6i)	2,770	2,770
WCVA	14,839	15,663
Incwm Gohiriedig	-	27,467
Caffi Cynnes Cyf (6i)	3,940	-
	<u>£ 23,858</u>	<u>£47,263</u>

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG****NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022****8. DARPARIAETH AM YMRWYMIADAU**

	2022 £	2021 £
a) YSTAFELL GYFRIFIADURON / Y CWTSH		
Balans ar 1 Ebrill 2021	667	1,700
Arian a dderbyniwyd	-	-
Grant a hawliwyd	(667)	(1,033)
Balans ar 31 Mawrth 2022	<u>-</u>	<u>667</u>
b) LOTERI ABC, 123		
Balans ar 1 Ebrill 2021	755	1,204
Arian a dderbyniwyd	-	-
Grant a hawliwyd	(449)	(449)
Balans ar 31 Mawrth 2022	<u>306</u>	<u>755</u>
c) REDRESS		
Balans ar 1 Ebrill 2021	4,190	-
Arian a dderbyniwyd	-	4,505
Grant a hawliwyd	(21)	(315)
Balans ar 31 Mawrth 2022	<u>4,169</u>	<u>4,190</u>
CYFANSWM	<u><u>£4,475</u></u>	<u><u>£ 5,612</u></u>

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

**NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022**

9. CRONFEYDD - HEB GYFYNGIADAU

	2022 £	2021 £
Balans a ddygwyd ymlaen	(1,475,729)	(1,448,715)
Gwarged/Diffyg) am y cyfnod	165,485	(27,014)
	<u>£(1,310,244)</u>	<u>£(1,475,729)</u>

10. CRONFEYDD PENODOL

	Balans 1.4.21 £	Trosglwy- ddiadau i Gronfeydd Eraill £	Trosglwy- ddiadau i mewn £	Balans 31.3.22 £
Costau Swyddfa (ii)	33,177	-	-	33,177
	<u>33,177</u>	<u>-</u>	<u>-</u>	<u>33,177</u>

Yn dilyn asesiad o risg, mae'r Fenter wedi sefydlu dwy gronfa benodol: -

- Darpariaeth am gostau craidd i alluogi'r Fenter i gwrdd â chostau gweinyddu am gyfnod o 9 i 12 mis pe bai lleihad yn y gweithgareddau. Cytunwyd y bod modd gostwng y ddarpariaeth ar sail fod costau craidd y Fenter wedi gostwng i gymharu â'r blynyddoedd cynt.
- Darpariaeth am gostau ychwanegol a fyddai'n deillio o adleoli swyddfeydd dan yr un amgylchiadau a chronfa (i)

	£
- Costau Cynnal y Swyddfa	23,177
- Costau Cyfreithiol	5,000
- Adleoli Swyddfeydd	5,000
	<u>£33,177</u>

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

11. CRONFEYDD - A CHYFYNGIADAU

Symudiad mewn Cronfeydd

	Balans 1.4.21	Adnoddau i mewn / Tros Glwyddiadau	Gwariant/ Trosglwyddo- iadau	Balans 31.3.22
	£	£	£	£
CAVS (i)	-	5,000	5,000	-
Iechyd a Lles (ii)	-	14,472	14,472	-
Prosiect Llwynhendy (iii)	63,008	-	20,356	42,652
Redress (iv)	-	63,157	63,157	-
LHB (v)	-	15,000	15,000	-
WCVA - CGTS3 (vi)	-	21,000	21,000	-
Ardaloedd Blaenoriaethau (ix)	-	18,969	18,969	-
	63,008	137,598	157,954	42,652

Cronfeydd a Chyfyngiadau

(i) **CAVS – Roedd Cronfa Cefnogi Covid-19** Sir Gaerfyrddin yn cefnogi sefydliadau'r sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn Sir Gaerfyrddin i wneud y canlynol :-

- cynnal neu gynyddu gweithgareddau sy'n cefnogi'r rhai agored i niwed yn ystod argyfwng Coronafeirws (COVID-19)
- sicrhau bod gan sefydliadau/grwpiau cymunedol yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'w cymunedau
- annog protocolau iechyd a diogelwch cadarn yn ystod pob gweithgaredd sy'n diogelu staff, gwirfoddolwyr, cynorthwywyr a buddiolwyr y sector gwirfoddol

Bu'r Fenter yn ffodus i dderbyn £1,000 i brynu stoc o PPE er mwyn diogelu staff

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

**NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022**

- (ii) **Iechyd a Lles** - Cytundeb Lefel Gwasanaeth i ddatblygu prosiectau iechyd a lles i bobl 50+ o fewn dalgylch Cwm Gwendraeth.
- (iii) **Prosiect Llwynhendy** - Nod Cyllid Invest Local yw i ddarparu buddsoddiad ar gyfer y prosiect ac adnabyddwyd yng Nghynllun Gyrru Newid Llwynhendy, sy'n gyfredol ar yr adeg pan gyflwynir y cynnig cyllido.

Mae Menter yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian yn cael ei wario yn union yn unol â'r termau ac amodau ar nwyddau a gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu'r prosiect a gymeradwywyd gan Bwyllgor Llywio'r Llwynhendy Invest Local (y Pwyllgor Llywio) fel y crybwyllwyd yn y Llythyr Cynnig cyllid.

- (iv) **Redress** - Mae Adfer Energy Redress yn cynnig cymorth i bobl Sir Gaerfyrddin i leihau costau gwresogi eu cartrefi a lleihau Tlodi Tanwydd. Mae Tlodi Tanwydd yn effeithio ar filoedd o aelwydydd ar draws Cymru ac yn cael effaith negyddol ar iechyd, gan gyfrannu ar afiechyd a marwolaethau dros y Gaeaf. Bydd Adfer Energy Redress yn helpu pobl sydd yn agored i niwed. Bydd hefyd yn grymuso pobl i gymryd camau cadarnhaol yng nghymunedau eu hunain, mewn ymateb i'r cynnydd yn y gost o wresog cartrefi- tuedd sy'n peri cryn bryder i lawr gyda'r cynnydd cost ynni presennol.
- (v) **LHB** – Prosiect Ysgolion - Darparu gwasanaeth cyn ysgol ar gyfer sefydliadau ar draws Sir Caerfyrddin.
- (vi) **WCVA CGTS3** - Cynnal neu gynyddu gweithgareddau sy'n cefnogi'r rhai sydd yn agored i niwed yn ystod pandemig Coronafeirws (Covid-19).
- Sicrhau bod gan fudiadau gwirfoddol/y trydydd sector yr adnoddau angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau hanfodol i'w cymunedau.
 - Annog protocolau iechyd a diogelwch llym yn ystod pob gweithgaredd sy'n amddiffyn staff, gwirfoddolwyr a buddiolwyr y trydydd sector/y sector wirfoddol.
- (vii) **Ardaloedd blaenoriaethau** – Prosiect sy'n canolbwyntio ar ddwy ardal benodol, sef Cydweli a Thrimsaran, er mwyn Cymreigio a normaleiddio'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

12. DADANSODDIAD O ASEDION NET RHWNG CRONFEYDD

	Aseidion / Sylweddol	Rhwymedigaeth Net	Cyfanswm
	£	£	£
Grantiau	4,475	(4,475)	-
Cronfeydd Penodol	-	33,177	33,177
Cronfeydd heb gyfyngiadau	50,363	(1,360,607)	(1,310,244)
Cronfeydd a chyfyngiadau	-	42,652	42,652
	<u>54,838</u>	<u>(1,289,253)</u>	<u>(1,234,415)</u>

13. TRAFODION A CHWMNIAU PERTHNASOL

Mae dau o'r pum cwmni perthnasol wedi cyfrannu tuag at gostau Menter Cwm Gwendraeth Elli sef,

Menter Min Nos Cyf	£0	(2021 - £0)
Cwtsh Glöyn Cyf	£2,000	(2021 - £0)
Caffi Cynnes Cyf	£0	(2021 - £0)
Menter Plant y Cwm Cyf	£20,000	(2021 - £0)
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf	£0	(2021 - £0)

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG****NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022****14. CYNLLUN PENSIWN**

Natur y Cynllun: Budd-dal Diffiniedig
 Dyddiad y Prisiad Actiwariad llawn ddiwethaf 31.03.2019

TYBIAETHAU ACTIWARIAID***Tybiaethau Ariannol***

	Dechrau'r Flwyddyn	Diwedd y Flwyddyn
Graddfa chwyddiant	2.7%	3.2%
Graddfa cynnydd cyflogau	4.2%	4.7%
Graddfa cynnydd pensiynau	2.8%	3.3%
Cyfradd disgownt	2.2%	2.8%

Rhaniad yr asedau rhwng y categorïau buddsoddi

Soddgyfrannau	74.0%	72.3%
Bondiau'r Llywodraeth	0.0%	1.3%
Bondiau eraill	11.6%	7.9%
Eiddo	11.1%	13.1%
Arian parod	1.2%	1.7%
Arall	2.1%	3.7%

Mae'r ffigurau diwedd y flwyddyn ar gyfer dangos gwerth yr asedau ar y farchnad a'r rhaniad asedau rhwng categorïau buddsoddiadau wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2022.

Mae'r ffigurau cyfatebol ar gyfer ddechrau'r flwyddyn wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2021.

Mantolen yr Eitemau ar 31 Mawrth 2022

	£,000
Gwerth yr Asedau ar y farchnad	2,320
Dyledion	(3,760)
(Diffyg)	(1,440)
Symudiadau'r Gweddill yn ystod 2021/22	
Gweddill (Diffyg) ar ddechrau'r flwyddyn	(1,582)
Cost Gyfredol y Gwasanaeth	(84)
Cyfraniadau'r Cyflogwr	48
Cost y Gwasanaeth Gynt	-
Llog Net / Budd ar Asedau	(34)
Gwarged Actiwariad	212
(Diffyg) ar ddiwedd y flwyddyn	(1,440)

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG****NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022***Datgeliadau Ychwanegol*

	Asedau ar 31.03.22		Asedau ar 31.03.21	
	£ 000	%	£ 000	%
Soddygyfrannau	1,678	72.3	1,597	74.0
Bondiau'r Llywodraeth	30	1.3	-	0.0
Bondiau eraill	183	7.9	250	11.6
Eiddo	304	13.1	240	11.1
Arian	39	1.7	26	1.2
Arall	86	3.7	45	2.1
	-----		-----	
Cyfanswm	2,320		2,158	
	-----		-----	
<i>Dyledion ar 31.03.2022</i>	3,760			

Caiff y Cynllun Pensiwn ei drin fel cynllun a'r cyfraniadau wedi'u diffinio gan fod cytundeb rhwng Menter Cwm Gwendraeth a'r Cynllun Pensiwn Aml-gyflogwr ynglŷn â'r modd yr ariennir unrhyw ddiffyg.

15. DIGWYDDIADAU ERS DYDDIAD Y FANTOLEN: COVID-19

Ers diwedd y flwyddyn ariannol mae'r Fenter dal i fod yn dioddef o effaith Covid 19 gan fod cyfyngiadau wedi parhau mewn i'r flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r Fenter yn parhau i gynnig amryw o wasanaethau i'r gymuned ac yn dal i fod yn chwilio am gyfleoedd newydd i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion am Gwm Gwendraeth a Llanelli.